



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol 2015-16

Dros y blynyddoedd nesaf, rydym am arwain y ffordd yng Nghymru mewn meysydd megis y ffordd rydym yn rheoli ac yn defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir, fel yr amlinellir yn ein Cynlluniau Corfforol a'n Cynlluniau Busnes. Cynhwysir adroddiadau corfforaethol am effaith amgylcheddol ein sefydliad ein hunain yn Atodiad 2.

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cadw ardystiad ISO14001 a Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig yn dilyn archwiliadau a phroses ddilysu allanol annibynnol, gan ddangos ein hymroddiad ein hunain i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf ag sy'n bosibl fel sefydliad.
- wedi cynyddu 10% ar ein hól troed carbon oherwydd y cynnydd mewn defnyddio agregau crai mewn cynlluniau adeiladu
- wedi cyrraedd ein targed i leihau 5% ar ein hól troed carbon mewn perthynas â'r defnydd o ynni mewn adeiladau a theithio ar fusnes
- Wedi hyfforddi staff ar feysydd allweddol System Reoli Amgylcheddol ein sefydliad.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, fe fyddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth inni weithio tuag at Adrodd Integredig.

Atodiad 2 – Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

Cyflwyniad

Rydym wedi ymroddi y bydd datblygiad cynaliadwy wrth wraidd ein holl benderfyniadau busnes. Dros y blynyddoedd nesaf, rydym am ein datblygu ein hunain fel sefydliad enghreifftiol ynglŷn â chynaliadwyedd a rheoli amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig yn y ffordd rydym yn rheoli ac yn defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Lleihau ein hól troed carbon
- Ymgorffori ein System Reoli Amgylcheddol yn niwylliant ein sefydliad
- Integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i'n proses gaffael ni, a bod yn sefydliad ymgysylltiedig a thryloyw ar gyfer rhanddeiliaid ein System Reoli Amgylcheddol
- Cydymffurfio â safon ISO14001:2015 newydd a sefydlu gwaelodlin ar gyfer targedau monitro, adrodd a lleihau gwastraff.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, fel maes penodol ar wahân i weithrediadau neu ganlyniadau amgylcheddol ehangach. Gellir gweld adroddiadau amgylcheddol ehangach yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon.

Crynodeb o Berfformiad

Rydym wedi cadw tystysgrif ISO14001 ar gyfer ein System Reoli Amgylcheddol, yn dilyn archwiliadau goruchwyllo allanol annibynnol a phroses ddilysu. Mae ein System Reoli Amgylcheddol¹ bellach yn cynnwys ein gweithrediadau coedwigaeth. Mae meddu ar System Reoli Amgylcheddol sydd wedi cael ei dilysu'n allanol yn caniatáu inni ddangos ein hymroddiad ein hunain i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf ag sy'n bosibl fel sefydliad.

Rydym hefyd wedi cadw ardystiad coetir (Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig) ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli, yn dilyn archwiliadau allanol annibynnol a phroses ddilysu trwy Société Générale de Surveillance (SGS). Mae hyn yn ein galluogi i gynhyrchu pren wedi'i ardystio gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd/Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd² ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli.

¹ Ar hyn o bryd, mae ein System Reoli Amgylcheddol yn berthnasol i: "Weithgareddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r broses o reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy."

²Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Fel yr ategir gan ein hachrediad [Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig](#) (UKWAS).

Tabl 1: Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol – tabl crynhoi

Maes	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Allryiadau nwy tŷ gwydr ³	Defnydd (tCO ₂ e)	7,301	7,164	7,928	I fyny
	Gwariant (£k)	3,323	3,345	2,961	I lawr
Ynni ystadau	Defnydd (miliwn kWh)	7.0	6.3	6.9	I fyny
	Gwariant (£k)	570	587	632	I fyny
Gwastraff ystadau	Defnydd (tunelli)	400	420	791	I fyny
	Gwariant (£k)	147	110	127	I fyny
Dŵr ystadau	Defnydd (m ³)	86,486	29,455	78,359	I fyny
	Gwariant (£k)	35	27	59	I fyny

Mae Tabl 1 yn dangos y newid cymharol ar gyfer meysydd allweddol y llynedd. Gellir gweld rhagor o fanylion ym manau cysylltiedig yr adroddiad hwn. I grynhoi, mae'r newidiadau fel a ganlyn:

- Gostyngiad o 10% i lefelau nwy tŷ gwydr, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y cerrig mân sy'n cael eu defnyddio mewn cynlluniau adeiladu
- Cynnydd o 10% yn y defnydd o ynni, yn bennaf oherwydd y defnydd o drydan ar safleoedd nad ydynt wedi eu staffio
- Cynnydd o 68% yn y maint o wastraff rydym yn ei drin, yn sgil y broses o gynnwys llifoedd gwastraff ychwanegol yn ein hadroddiadau am y tro cyntaf eleni (yn bennaf ar gyfer swyddfeydd a depos)
- Cynnydd o 160% yn y dŵr rydym yn ei ddefnyddio, yn bennaf o ganlyniad i fesurydd gael ei atgyweirio yn Neorfa Bysgod Cynrig, a oedd hefyd wedi arwain at danadrodd yn ystod blynyddoedd blaenorol.

Mae gennym dargedau ar waith ynglŷn â phob un o'r meysydd hyn ar gyfer 2016-2017 (fel y disgrifir yn yr adran nesaf).

Crynodeb o Strategaeth ar gyfer y Dyfodol

Dros y ddwy flynedd nesaf rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflawni ardystiad i Safon Amgylcheddol Ddiwygiedig ISO14001:2015
- Cadw ein hachrediad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig
- Torri ein hallyriadau carbon o adeiladau sy'n cael eu defnyddio, teithiau busnes a'r defnydd o ddŵr o 5% o gymharu â lefelau 2015-2016, flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Cyflawni ein hymrwymadau o dan y Siarter Datblygiad Cynaliadwy, gan weithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gweithio tuag at ddod yn enghraifft batrymol gydnabyddedig o gynaliadwyedd
- Sicrhau bod ein harferion caffael yn agored ac yn dryloyw, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a sicrhau bod ein contractau'n hollol hygyrch ar gyfer busnesau bach a chanolig, busnesau cymdeithasol a busnesau mwy, gan gefnogi Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru
- Gwneud ymchwil i'r cwmpas ar gyfer ynni dosbarthedig/datblygiadau adnewyddadwy ar raddfa fach ar y tir rydym yn ei reoli, gan ddefnyddio dull cadarnhaol sy'n seiliedig ar risg
- Datblygu ein dull ar gyfer adrodd integredig, gan gynnwys gweithredu ein hachos busnes.


³(Cwmpasau 1, 2 a 3, gan gynnwys hedfan/teithiau trên, ac eithrio'r hyn sydd y tu allan i gwmpasau allyriadau)

Y flwyddyn nesaf rydym am wneud y canlynol:

- Lleihau ein hól troed carbon – rydym wedi gosod targed i leihau ein hallyriadau carbon deuocsid (tCO₂e) o adeiladau sy'n cael eu defnyddio, teithiau busnes a'r defnydd o ddŵr o 5%, yn seiliedig ar ddata 2015-2016
- Cyflawni ein Prosiect Carbon Bositif – gan ein symud ni tuag at fod yn enghraifft batrymol mewn rheoli carbon ac yn rhannu arfer gorau i'w ddefnyddio ar draws sector cyhoeddus Cymru
- Bodloni gofynion Safon ISO14001:2015 newydd
- Bodloni gofynion ein Cynllun Galluogi Rheoli Digwyddiadau – gan gyflawni Achrediad y DU am Ymdrin â Gollyngiadau
- Parhau i ymgorffori ein System Reoli Amgylcheddol yn niwylliant ein sefydliad – gan godi ymwybyddiaeth staff o'r cyfraniad y gallant ei wneud fel unigolion i'n perfformiad amgylcheddol ni, a sut y gall eu gwaith gyfrannu at y broses o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr

Aethom ati i bennu targed er mwyn sicrhau gostyngiad o 5% mewn allyriadau CO₂ sy'n deillio o deithio ar fusnes ac adeiladau eleni, ac rydym wedi cyflawni hyn, gyda gostyngiad o 10% mewn allyriadau CO₂ yn gyffredinol yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae allyriadau'n gyffredinol wedi cynyddu 8% oherwydd y cynnydd mewn defnyddio agregau crai mewn cynlluniau adeiladu.



Tabl 2: Allyriadau nwy tŷ gwydr

Allyriadau nwy tŷ gwydr	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Cwmpas 1: Allyriadau nwy tŷ gwydr uniongyrchol (tCO ₂ e)	3,064	2,537	2,830	I fyny
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO ₂ e)	1,993	2,107	2,048	I lawr
Cwmpas 3: Allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol eraill (tCO ₂ e)	2,245	2,520	3,050	I fyny
Cyfanswm yr allyriadau nwy tŷ gwydr (tCO₂e)	7,301	7,164	7,928	I fyny
<i>Y tu allan i gwmpasau (h.y. biomas)</i>	180	176	253	I fyny
Dwysedd carbon (tCO ₂ e ar gyfer pob £1 miliwn o wariant)	41.3	39.8	44.9	I fyny

Sylwer: Nid yw'r data wedi'i wirio'n allanol - Sicrwydd Cyfyngedig

Sylwer: Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys; teithio mewn trên, teithio yn y fflyd lwyd, teithio mewn car les, teithio mewn car llog, defnyddio dŵr, gwastraff ac agregau.

Rheoli a Lleihau Gwastraff

Rydym wedi gwella'r nifer o lifoedd gwastraff rydym yn gallu adrodd amdanynt yn unol â'n targed ni ar gyfer mesur ac adrodd am bob llif gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson yn 2015-2016. Mae hyn wedi gwella yn enwedig ar gyfer ein swyddfeydd a depos. Ein ffynhonnell gwastraff sengl fwyaf yw llaid tanc septig yn ein depo Pye Corner. Gwastraff dinesig cymysg o'n Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin yw ein ffynhonnell gwastraff ail fwyaf. Byddwn yn chwilio am ffyrdd i leihau'r rhain, a meysydd mawr eraill o wastraff yn 2016-2017.

Tabl 3: Gwastraff a Gynhyrchir

Gwastraff a Gynhyrchir	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Safleoedd Tirlenwi	Defnydd (tunelli)	80	64	175	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	23	18	80	I fyny
	Gwariant (£k)	90	47	25	I lawr
Ailgylchu/ailddefnyddio	Defnydd (tunelli)	253	229	384	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	5	5	8	I fyny
	Gwariant (£k)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	101	I fyny
Wedi'i losgi	Defnydd (tunelli)	30	31	123	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	1	1	3	I fyny
	Gwariant (£k)	Ddim ar gael ar hyn o bryd[1]	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Tipio anghyfreithlon	Defnydd (tunelli)	37	96	110	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	9	35	32	I lawr
	Gwariant (£k)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Cyfanswm y gwastraff	Defnydd (tunelli)	400	420	791	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	38	59	123	I fyny
	Gwariant (£k)	147	110	127	I fyny

Y Defnydd o Adnoddau Cyfyngedig

Rydym wedi adrodd am ein defnydd o ddŵr ac ynni ar ein hystadau isod. Mae'r cerrig/cerrig mân a ddefnyddir mewn prosiectau adeiladu hefyd yn un o'n meysydd sylweddol ni o ddefnyddio adnoddau, ac adroddir amdano yn adran Adeiladu Cynaliadwy yr adroddiad hwn.

Dŵr: Cafodd ein proses ar gyfer adrodd am ein defnydd o ddŵr ei gwella y llynedd, er mwyn sicrhau bod ffigurau'n adlewyrchu'r defnydd o ddŵr gan swyddfeydd yn unig (hynny yw, heb gynnwys unrhyw safleoedd, depos, canolfannau ymwelwyr, deorfeydd ac ati sydd â defnydd cymysg). Mae dwysedd ein defnydd o ddŵr yn is na'r cyfartaledd ar gyfer defnyddio dŵr,⁴ ac rydym wedi gosod targed i'w leihau o 5% ar gyfer 2016-2017.

⁴ Cyfartaledd = 4m³ ar gyfer pob swydd gyfwerth ag amser llawn (Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad Allweddol dŵr a meincnodau ar gyfer swyddfeydd a gwestai. C657 CIRIA www.ciria.org)

Tabl 4: Defnydd Dŵr

Defnydd adnoddau – dŵr ystadau	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Y dŵr a gyflenwyd: Defnydd gan swyddfeydd	Defnydd (m ³)	8,161	7,208	6,830	I lawr
Y dŵr a gyflenwyd: Defnydd ar wahân i swyddfeydd	Defnydd (m ³)	4,863	4,863	5,519	I lawr
- Prif gyflenwad	Defnydd (m ³)	73,428	73,428	65,981	I fyny
- Tynnu dŵr	Defnydd (m ³)	34	34	29	I lawr
- Dŵr glaw					
Dwysedd y defnydd o ddŵr (at ddefnydd swyddfeydd)	(m ³) ar gyfer pob swydd gyfwerth ag amser llawn	4.1	3.7	3.4	I lawr
Y dŵr a gyflenwyd: Cyfanswm	Defnydd (m ³)	86,486	29,455	78,359	I fyny
	Gwariant (£k)	35	27	59	I fyny
	Defnydd (tCO ₂ e)	30	10	27	I fyny

Dŵr a dynnwyd ar gyfer gweithredu ein safle deorfa bysgod oedd ein defnydd mwyaf sylweddol eleni, ar dros 60,000 m³. Mae llawer o'r cynnydd ymddangosiadol yn y defnydd o ddŵr a dynnir yn ymwneud â'r gwaith o atgyweirio mesurydd nad oedd yn gweithio yn ystod y flwyddyn – roedd hyn yn golygu nad oedd y defnydd o ddŵr ar gyfer 2014-2015 yn adlewyrchu defnydd arferol y safle. Cynnal y cynefinoedd gwlyptiroedd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd (wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn rhan o Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safle Ramsar ac Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Hafren) oedd y defnydd ail fwyaf⁵ eleni, a'r defnydd mwyaf yn 2014-2015. Rydym hefyd yn tynnu dŵr ar safleoedd anghysbell lle nad oes prif gyflenwad o ddŵr ar gael.

Ynni: Mae ein defnydd o ynni wedi cynyddu eleni, gyda'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn ymwneud â'n safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio (y defnydd o drydan yn benodol). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi cynhyrchu 1.5% o'r ynni rydym yn ei ddefnyddio yn ein hadeiladau â ffynonellau ynni adnewyddadwy (pŵer gwynt a phŵer yr haul). Gwnaeth ein gosodiad ynni adnewyddadwy mwyaf (paneli ffotofoltaidd yn swyddfa Maes y Ffynnon ym Mangor) gynhyrchu 24,864 kWh yn ystod y flwyddyn.

Tabl 5: Ddefnydd Ynni

Defnydd Ynni– Ynni Ystadau	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Defnydd ynni: Safleoedd sy'n cael eu defnyddio	Defnydd (kWh)	6,026,274	5,361,986	5,550,100	I fyny
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,151	2,081	2,011	I lawr
Defnydd ynni: Safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio	Defnydd (kWh)	930,846	993,431	1,319,745	I fyny
	Defnydd (tCO ₂ e)	415	491	610	I fyny
Ynni adnewyddadwy: Ynni hunangynyrchedig	Cynnyrch (kWh)	77,730	80,870	81,713	I fyny
	Defnydd (% yr ynni a ddefnyddiwyd)	1.3%	1.5%	1.4%	I lawr

⁵ Mae dŵr wedi'i dynnu'n cael ei ddefnyddio mewn tywydd sych a phoeth i gynnal y lefelau cywir o ddŵr a helltni yn Lagwnau Heli Gwlyptiroedd Casnewydd, sy'n hanfodol ar gyfer llawer o rywogaethau o adar dŵr sy'n dibynnu arnynt. Yn yr hydref, mae'r broses dynnu hefyd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod glaswelltiroedd gwlyb iseldiroedd y warchodfa'n cael eu cadw yn y cyflwr cywir i gynnal adar sy'n aros dros y gaeaf.

Defnydd ynni: Cyfanswm	Defnydd (kWh)	6,957,120	6,355,417	6,869,845	I fyny
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,566	2,572	2,621	I fyny
	Gwariant (£k)	570	587	632	I fyny
Gosodiadau ynni adnewyddadwy ⁶	Defnydd (MW)	59	59 ⁷	60	I fyny

Mae hefyd ynni'n cael ei gynhyrchu ar raddfa fawr ar yr ystad ehangach rydym yn ei rheoli (Ystad Goetir Llywodraeth Cymru) trwy fferm wynt Cefn Croes, sydd â capasiti o 59MW pan fydd yn cael ei llawn weithredu. Ar raddfa lai, mae tua 1,268kW o ynni adnewyddadwy wedi dod yn weithredol yn y ddwy flynedd ddiwethaf trwy'r gosodiadau ynni dŵr bach rydym wedi eu galluogi. Mae gennym Gynllun Cyflenwi Ynni er mwyn datblygu rhagor o brosiectau ynni ar y tir (gan gynnwys gwynt, dŵr, solar, biomas, glo, olew a nwy) trwy neu dros yr ystad a reolir. Dros y tair blynedd nesaf, rydym yn disgwyl y bydd y maint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu ar yr ystadau rydym yn eu rheoli'n cynyddu'n sylweddol (mwy na 600MW o gapasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy ddulliau adnewyddadwy, digon o ynni ar gyfer tua 350,000 o dai).

Caffael Cynaliadwy

Mae caffael cynaliadwy yn ystyried yr effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pan fyddwn yn gwneud penderfyniad ynglŷn â phrynu. Mae'n galluogi ein sefydliad i ddiwallu ei angen am nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, ond ar yr un pryd yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig Cymru. Mae'r egwyddorion allweddol hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy 2015-2017, ac mae ein cynnydd yn cael ei adrodd yn ystod y flwyddyn yn ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes.

Rydym wedi datblygu Dull ar gyfer Ymdrin â'r Farchnad sy'n caniatáu archebwyr i gwestiynu'r angen i brynu, ac i ystyried effaith ymarferol prynu'r eitem a'r holl opsiynau eraill sydd ar gael cyn gwneud cytundeb. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd, sy'n archwilio effaith prynu'r eitem ar sail bywyd cyfan, ac yn nodi mesurau lliniaru.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar y dull hwn er mwyn ystyried effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol prynu'r eitem hon, trwy integreiddio ac alinio ymhellach â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddfau Amgylcheddol, wrth ystyried risg, cwmpas a dylanwad hefyd. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda chyflenwyr, gan sicrhau eu hymroddiad i gynaliadwyedd, ac yn helpu i dargedu meysydd lle y gall y canlyniadau gorau gael eu gwireddu. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni manteision cymunedol wedi eu cyflwyno trwy ddyfarnu contractau allweddol, ac yn adrodd am y canlyniadau a gyflawnir.

⁶Cynlluniau ar yr ystad rydym yn ei rheoli sy'n cynnwys datblygwyr yn prydlesu tir rydym yn ei reoli er mwyn lleoli gosodiadau ynni adnewyddadwy ar y safle (e.e. ffermydd gwynt). Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys cynlluniau nad ydynt ond yn rhannol ar yr ystad rydym yn ei rheoli (e.e. cynlluniau ynni dŵr bach). Mae'r ffigurau'n adlewyrchu capasiti'r gosodiadau pan fyddant yn cael eu llawn weithredu, yn hytrach na'r ynni maent yn ei gynhyrchu mewn gwirionedd.

⁷ Full figure is 60.3MW, when including the ~1,268kW of small scale hydro generation we have enabled

Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: gweithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, casglu samplau, ymdrin â llifogydd, cyfarfodydd safle ac ati. Eleni rydym wedi teithio tua 9 miliwn milltir wrth wneud ein gwaith.

Tabl 6: Manylion y daith

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Ein cerbydau ni	Milltiroedd deithiwyd ^a	6,562,934	5,416,119	5,833,839	I fyny
	Gwariant (£k)	1,101	1,033	800	I lawr
Cerbydau ar brydles	Milltiroedd deithiwyd ^a	2,154,755	2,531,396	1,649,345	I lawr
	Gwariant (£k)	223	329	162	I lawr
Cerbydau llwyd	Milltiroedd a deithiwyd	673,345	618,795	552,343	I lawr
	Gwariant (£k)	74	81	244	I fyny
Cerbydau llog	Milltiroedd a deithiwyd	326,810	357,526	256,654	I lawr
	Gwariant (£k)	14	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Dim newid
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	1,405,603	1,367,762	865,693	I lawr
	Gwariant (£k)	342	377	291	I lawr
Aer	Milltiroedd a deithiwyd	27,997	30,221	18,898	I lawr
	Gwariant (£k)	8	11	6	I lawr
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	4,812	804	1,944	I fyny
	Gwariant (£k)	0	0	0	Dim newid
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	4,475	Ddim yn berthnasol
	Gwariant (£k)	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	1	Ddim yn berthnasol
Cyfanswm teithio mewn cerbyd	Milltiroedd a deithiwyd	11,156,256	10,322,623	9,183,191	I lawr
	Gwariant (£k)	1,762	1,831	1,502	I lawr

Fel rhan o'r gwaith i leihau ein costau a'r effaith ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â theithio, mae gennym bolisi teithio ar waith. Er mwyn cefnogi'r polisi, rydym wedi creu coeden penderfynu teithio sy'n nodi'r opsiynau gorau a gwaethaf ar gyfer teithio. Rydym hefyd yn gweithredu 'polisi dim hedfan' o fewn Cymru a Lloegr, gan fynnu bod pob cais i hedfan yn cael ei gyfiawnhau a'i glirio ar lefel y Tîm Gweithredol. Mae ein defnydd o gynadleddau fideo/sain wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd yn nifer y defnyddwyr, y cyfarfodydd a gynhaliwyd, a'r cofnodion a gadwyd.

Digwyddiadau Amgylcheddol

Bu 18 digwyddiad amgylcheddol o ganlyniad i'n gwaith ni (neu waith ein contractwyr) a thri a osgowyd o drwch blewyn. Dyma ostyngiad o 47% mewn cymhariaeth â'r 38 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol 2014/15. Ni chafodd yr un o'r digwyddiadau hyn eu dosbarthu'n ddifrifol yn ôl y cynllun dosbarthu digwyddiadau amgylcheddol rydym yn ei ddefnyddio i fesur digwyddiadau amgylcheddol. Pan fydd

digwyddiadau'n digwydd o ganlyniad i'n gwaith ni (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, a gweithredu i roi sylw i achos gwreiddiol y digwyddiad.

Adeiladu Cynaliadwy

Gwneir llawer o'n gwaith adeiladu gan contractwyr, ac mae rhywfaint o'r gweithgarwch hwn nad yw'n cael ei gynnwys yn y ffigurau isod.

Cerrig mân/cerrig Eleni, daeth 22% o'r agregau a ddefnyddiwyd o ffynhonnell eilaidd. Arweiniodd y gwaith o adeiladu Gwelliannau mewn Amddiffynfeydd Môr yn Tabbs Gout at y defnydd mwyaf o agregau. Mae ein defnydd o agregau wedi lleihau'n sylweddol eleni ar gyfer cynlluniau o'r fath. Mae ein defnydd o agregau crai ar yr Ystad Goed Gyhoeddus fel arfer cynnwys adeiladu seilwaith, gwaith cynnal a chadw a gwaith adfer, ac yn 2015 roedd yn cyfateb i 178,000 tonnall gyda'r rhan fwyaf wedi'i gynhyrchu o fwynau ar yr ystâd.

Tabl 7: Defnydd cerrig/cerrig mân

Defnydd adnoddau – Cerrig/cerrig mân	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Carreg/cerrig mân – ffynhonnell gynradd	Defnydd (tunelli)	63,923	115,786	182,999	I fyny
	Gwariant (£k)	526	538	555	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	703	1,274	2,013	I fyny
Cerrig/cerrig mân - ffynhonnell eilaidd	Defnydd (tunelli)	190,623	13,102	51,945	I fyny
	Gwariant (£k)	10	12	86	I fyny
	Defnydd (tCO2e)	381	26	104	I fyny
Ffynonellau eilaidd a ddefnyddiwyd	Gwariant (£k)	536	795	641	I lawr
	(% y cyfanswm yn ôl pwysau)	75	10	22	I fyny

Pren: Rydym yn ceisio sicrhau bod yr holl bren rydym yn ei ddefnyddio'n dod o ffynonellau eilaidd, ac rydym hefyd yn cynhyrchu pren wedi ei ardystio gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd/Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd

⁸ o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli. Eleni, mae'r holl bren wedi'i ddefnyddio ar gyfer adeiladu¹³ wedi dod o ffynhonnell eilaidd.

Tabl 8: Defnydd pren

Defnydd adnoddau – pren	Unedau	2013-14	2014-15	2015-16	Newid
Pren – ffynhonnell gynaliadwy	Defnydd (tunelli)	115	32	56	I fyny
	Gwariant (£k)	22	9	5	I lawr
Pren – ffynhonnell anhysbys	Defnydd (tunelli)	0	0	0	Dim newid
	Gwariant (£k)	0	0	0	Dim newid
Y defnydd o ffynhonnell gynaliadwy	(% y cyfanswm yn ôl pwysau)	100%	100%	100%	Dim newid

Cyfuno safleoedd

Pan gafodd ein sefydliad ei ffurfio, gwnaethom etifeddu nifer fawr o adeiladu (e.e. depos, swyddfeydd), a rhai ohonynt yn cyflawni swyddogaeth debyg ar safleoedd tebyg. Rydym yn parhau i werthu safleoedd sbâr, gan leihau ein costau llety, a'u hól troed carbon cysylltiedig. Byddwn yn parhau i gyfuno ein safleoedd dros y blynnyddoedd nesaf.

⁸ Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Fel yr ategir gan ein hachrediad [Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig](#) (UKWAS).

Newid ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith ni i ymgorffori ein System Reoli Amgylcheddol yn niwylliant ein sefydliad, rydym wedi cynnal nifer o gyrsiau hyfforddi (ar gyfer tua 1,800 o staff). Mae meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch ein gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, caffael pren ac ymateb i ddigwyddiadau.

Llywodraethu ac Adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hól troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, sy'n cael ei adrodd gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn agored gyhoeddus) dair gwaith y flwyddyn.

Rydym yn casglu'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesurydd (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. prynu trwy gerdyn tanwydd) a data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trê), gan ddefnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau mwyaf cywir sydd ar gael gennym. Rydym wedi gwella ein hadrodd am ddata biomas a gwastraff a'n gwaelodlinau yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn ceisio lleihau ein defnydd o ddata amcangyfrifedig yn ein hadroddiadau, ac rydym yn ceisio gwella'r maes hwn.